Offeryn Sgrinio Asesiad o Effaith

Enw'r polisi neu'r broses	Datganiad ar brofi golwg
Diben y polisi neu'r broses	I nodi safbwynt y GOC ar brofi golwg
Tîm/Adran	Polisi a Safonau
Dyddiad	22 Rhagfyr 2025; diweddarwyd 13 Ebrill a 7 Mai 2026
Sgrinio wedi'i gynnal gan	Marie Bunby a Toby Ganley
Wedi'i gymeradwyo gan	Charlotte Urwin
Dyddiad cymeradwyo	15 Mai 2026
Cyfarwyddiadau	• Cylchwch neu liwiwch statws cyfredol y prosiect neu'r polisi ar gyfer pob rhes. • **Peidiwch â cholli unrhyw resi**. Os nad yw'n berthnasol – rhowch N/A, os nad ydych chi'n gwybod rhowch farc cwestiwn yn y golofn honno. • Mae hwn yn offeryn byw, byddwch yn gallu ei ddiweddaru ymhellach wrth i chi gwblhau mwy o gamau gweithredu. • Gwnewch yn siŵr bod eich dewisiadau'n gywir ar adeg llenwi'r ffurflen. • Penderfynwch a ydych chi'n meddwl bod angen asesiad o effaith **llawn** i restru'r risgiau a'r camau lliniaru/cryfhau. • Os ydych chi'n credu **nad** oes angen asesiad o effaith llawn, rhowch eich rhesymeg yn y bylchau gwag o dan bob adran. • Gallwch gynnwys sylwadau yn y blychau neu yn y lle isod. • Cyflwynwch y ffurflen wedi'i llenwi i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth i'w chymeradwyo.

A) Effeithiau	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
1. Cronfeydd Wrth Gefn	Mae'n debygol y bydd angen cronfeydd wrth gefn	Mae'n bosibl y bydd angen cronfeydd wrth gefn		Dim effaith ar y cronfeydd wrth gefn / heb eu defnyddio	
2. Cyllideb	Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu na'i chytuno, ond bydd ei hangen	Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu, ond mae wedi'i chytuno a bydd yn cael ei throsglwyddo cyn bo hir	Mae cyllideb wedi'i dyrannu, ond efallai y bydd angen rhagor (gan gynnwys yn y blynyddoedd i ddod)	Nid oes angen cyllideb NEU mae cyllideb wedi'i dyrannu ac mae'n annhebygol y bydd angen rhagor	
3. Deddfwriaeth, Canllawiau neu Reoliadau	Ddim yn siŵr o'r ddeddfwriaeth berthnasol	Ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth ond heb ei chynnwys yn y prosiect/proses eto	Ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, mae wedi'i chynnwys yn y broses/prosiect, ond nid ydym yn cydymffurfio eto.	Ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth, mae wedi'i chynnwys yn y prosiect/proses, ac rydym yn cydymffurfio	
4. Newidiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol	Mae disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei newid o fewn y 12 mis nesaf	Mae disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei newid o fewn y 24 mis nesaf	Efallai y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid rywbryd yn y dyfodol agos	Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y ddeddfwriaeth	
5. Enw da a'r cyfryngau	Mae'r pwnc hwn yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau ar hyn o bryd neu y mae wedi cael sylw yn ystod y 12 mis diwethaf	Mae'r pwnc hwn wedi cael mwy o sylw yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf	Ychydig o sylw sydd wedi cael ei roi i'r pwnc hwn yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf.	Ychydig iawn o sylw, neu ddim sylw o gwbl, sydd wedi cael ei roi i'r pwnc hwn yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf.	
6. Adnoddau (pobl ac offer)	Angen adnoddau newydd	Yn debygol o gwblhau gyda'r adnoddau cyfredol, neu drwy rannu adnoddau	Yn debygol o gwblhau gyda'r adnoddau cyfredol	Yn gallu cwblhau gyda'r adnoddau cyfredol	
7. Cynaliadwyedd	Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses/prosiect, ac nid yw'n cael ei gofnodi'n ganolog nac yn llawn	Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o'r prosiect/proses, ond mae'n cael ei gofnodi'n ganolog ac yn llawn	Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses/prosiect, ond nid yw wedi'i gofnodi'n llawn a/neu'n ganolog	Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o'r broses/prosiect ac mae wedi'i gofnodi'n glir yn ganolog	

A) Effeithiau	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
	Nid oes unrhyw gynlluniau ar waith ar gyfer hyfforddiant, a/neu nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant	Deunydd hyfforddi heb ei greu, ond cynllun hyfforddi a pherchennog wedi'u nodi a dyddiadau cwblhau wedi'u gosod	Deunydd hyfforddi a chynllun wedi'u creu, perchennog wedi'i nodi a dyddiadau cwblhau wedi'u gosod	Hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i gofnodi gydag Adnoddau Dynol	Dd/ B
8. Cyfathrebu / codi ymwybyddiaeth	Nid oes cynllun cyfathrebu ar waith, ac nid oes perchennog nac amserlen wedi'i nodi	Mae cynllun cyfathrebu allanol ar waith (gan gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol) ond heb ei gwblhau, mae perchennog a dyddiadau cwblhau wedi'u nodi.	Mae cynllun cyfathrebu mewnol ar waith (ar gyfer pob lefel ac adran berthnasol) ond heb ei gwblhau, ac mae'r perchennog a'r dyddiadau cwblhau wedi'u nodi.	Mae cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol ar waith ac wedi'i gwblhau, mae'r perchennog a'r dyddiadau cwblhau wedi'u nodi.	
	Ddim yn siŵr a oes angen ei gyhoeddi yn y Gymraeg	Rhaid ei gyhoeddi yn y Gymraeg; Tîm Cyfathrebu yn ymwybodol		Nid oes angen ei gyhoeddi yn y Gymraeg	

Rhowch sylwadau isod am eich sgoriau effeithiau uchod:
5: Mae pwnc technoleg mewn perthynas â phrofion golwg wedi denu rhywfaint o ddiddordeb yn y cyfryngau yn ystod y 12 mis diwethaf ac rydym yn disgwyl i hyn barhau wrth i ddulliau darparu gwasanaethau esblygu ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg. Rydym yn lliniaru'r risg hon drwy drafodaeth ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid fel eu bod yn ymwybodol o'n cynlluniau ac yn cael cyfle i wneud sylwadau drwy'r broses ymgynghori gyhoeddus. 8: Rydym wedi paratoi cynllun cyfathrebu llawn i gefnogi ymgysylltu â'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei gwblhau pan fyddwn yn gallu pennu amserlenni. Bydd y ddogfen ymgynghori a'r atodiadau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymwneud â fersiwn wedi'i diweddaru o'n datganiad presennol o 2013 ar brofi golwg i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gweithgareddau cyn/ar ôl sgrinio a gwahanu'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le. Bydd yn berthnasol i unrhyw fformatau profion golwg sy'n dod o fewn rheoliadau'r DU. Rydym wedi asesu na fydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn effeithio ar y ffordd y caiff y Gymraeg ei thrin.

Mae'r risgiau a nodwyd yn yr adran hon yn risgiau isel a chanolig. Maent wedi cael sylw cyn belled ag y bo modd ac nid oes angen asesiad o effaith llawn.

B) Llywodraethu gwybodaeth	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
1. Pa ddata sy'n gysylltiedig?	Data personol sensitif	Data personol	Data busnes preifat / caeedig	Data busnes cyfrinachol / agored	Dd/ B
2. A fydd y data yn cael ei wneud yn ddienw?	Na fydd	Weithiau, mewn dogfennau a rennir	Bydd, ar unwaith, a'r gwreiddiol yn cael ei gadw	Bydd, ar unwaith, a'r gwreiddiol yn cael ei ddileu	Dd/ B
3. A fydd modd adnabod rhywun o'r data?	Bydd	Bydd, ond mae ei enw eisoes yn y parth cyhoeddus (UDRh/Cyngor)	Nid o'r data hwn yn unig, ond o bosibl pan fydd data'n cael ei gyfuno â ffynhonnell arall	Na – mae'r cyfan wedi'i wneud yn ddienw ac ni ellir ei gyfuno â gwybodaeth arall	Dd/ B
4. A fydd yr **holl** ddata a gesglir yn cael ei ddefnyddio?	Na, efallai yn y dyfodol	Bydd, ond dyma'r tro cyntaf i ni ei gasglu a'i ddefnyddio	Bydd, ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio'n llawn o'r blaen	Bydd, mae eisoes yn cael ei ddefnyddio'n llawn	Dd/ B
5. Beth yw swm y data sy'n cael ei drin bob blwyddyn?	Mawr – dros 4,000 o gofnodion	Canolig – rhwng 1,000-3,999 o gofnodion		Llai na 1,000 o gofnodion	Dd/ B
6. Oes gennych chi ganiatâd gan wrthrychau'r data?	Oes	O bosib, mae wedi'i egluro ar ein gwefan (Amdanom Ni)	Oes, wedi'i gael yn benodol, heb ei gofnodi bob amser	Oes, wedi'i gael yn benodol a'i gofnodi/neu'n rhan o ddyletswydd statudol/cytundebol	Dd/ B
7. Ydych chi'n gwybod am ba hyd y bydd y data'n cael ei gadw?	Na – nid yw ar amserlen gadw eto	Ydw – mae ar amserlen gadw	Ydw – ond nid yw ar yr amserlen gadw	Ar amserlen gadw **ac** mae'r gweithwyr perthnasol yn ymwybodol	Dd/ B
8. Ble ac ym mha fformat fyddai'r data'n cael ei gadw? (dileer fel y bo'n briodol)	Papur; gartref/oddi ar y safle; system neu ddarparwr TG newydd; Survey Monkey; gliniadur personol	Papur; ystafell archif; storfa mewn swyddfa (dan glo)	Gyriant a rennir GOC; gyriant personol	system TG arall (mewn defnydd); porth ar-lein; CRM; Wedi'i sganio a'i gadw ar ffolder tîm/adran gyriant H:	Dd/ B
9. A yw ar y gofrestr asedau gwybodaeth?	Nac ydw	Ddim eto, rydw i wedi cyflwyno i'r Perchennog Asedau Gwybodaeth (IAO)	Ydy, ond nid yw wedi cael ei adolygu gan IAO	Ydy, ac mae wedi cael ei adolygu gan IAO **ac** wedi'i gymeradwyo gan adran y Llywodraeth	Dd/ B

B) Llywodraethu gwybodaeth	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
10. A fydd data yn cael ei rannu neu ei ddatgelu gyda thrydydd partïon?	Bydd, ond nid oes unrhyw gytundebau ar waith	Bydd, cytundeb ar waith	O bosibl o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	Na, defnydd mewnol i gyd	Dd/ B
11. A fydd data yn cael ei drin gan unrhyw un y tu allan i'r UE?	Bydd	-	-	Na fydd	Dd/ B
12. A fydd data personol neu adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi?	Bydd – heb ei gymeradwyo gan y tîm Cydymffurfiaeth eto	Bydd - wedi'i gytuno gyda Chydymffurfiaeth	Na, bydd data personol ac adnabyddadwy yn cael ei olygu	Dim - ni fydd unrhyw ddata personol na data adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi	Dd/ B
13. Mae unigolion sy'n trin y data wedi cael hyfforddiant priodol	Nid yw rhai pobl erioed wedi'u hyfforddi gan GOC mewn llywodraethu gwybodaeth (IG)	Pawb wedi'u hyfforddi mewn IG ond dros 12 mis yn ôl		Ydyn, pob un wedi'i hyfforddi mewn IG yn ystod y 12 mis diwethaf	Dd/ B

Rhowch sylwadau isod am y rhesymau dros sgoriau llywodraethu gwybodaeth:

1-13: Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys casglu na phrosesu data personol fel rhan o'i brif swyddogaeth. Nid yw cynigion yr ymgynghoriad yn golygu ein bod ni'n casglu data – nid polisi na phroses sy'n cynnwys ceisiadau mohoni – yn hytrach mae'n ddatganiad safbwynt wedi'i ddiweddaru arfaethedig a safonau diwygiedig arfaethedig ar gyfer ein cofrestreion, felly mae llawer o'r adran hon yn amherthnasol.

Mae'n annhebygol y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ei hun yn darparu data personol am unigolion ond gallant ddarparu gwybodaeth am fusnesau a'u harferion masnachol. Yn unol â'n polisi ymgynghori, byddwn yn golygu gwybodaeth yr ydym yn ei hystyried yn dramgwyddus, yn flinderus, yn enllibus neu'n cynnwys rhethreg sy'n hyrwyddo ymddygiad/barn wahaniaethol yn erbyn unrhyw un â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu sy'n amherthnasol (consultation-policy-final-july-2024.pdf (optical.org)).

Gall ymatebwyr i'r ymgynghoriad ddarparu eu gwybodaeth bersonol (enw, manylion cyswllt a gwybodaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wrth gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, ond nid yw'n orfodol. Lle caiff ei gasglu, defnyddir yr holl wybodaeth o'r fath at ddibenion dadansoddi ymatebion yn unig ac nid ydym yn nodi nac yn cyhoeddi enwau unrhyw unigolion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae ein platfform ymgynghori yn cynnwys datganiad preifatrwydd, sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio data ymatebwyr (Polisi Preifatrwydd | Cyngor Optegol Cyffredinol).

Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau'n isel neu'n ganolig ac maent wedi cael eu lliniaru.

Nid oes angen asesiad o effaith llawn.

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
1. Prif gynulleidfa/defnyd diwr polisi	Y cyhoedd			Cofrestreion, gweithwyr neu aelodau	
2. Cyfranogiad mewn proses (hawl i gael eich trin yn deg, hawl i ryddid mynegiant)	Ydy, mae'r polisi, y broses neu'r gweithgaredd yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithio neu gyfranogiad unigolyn mewn proses			Na, nid yw'r polisi, y broses na'r gweithgaredd yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithio na chyfranogiad unigolyn mewn proses.	
3. Mae'r polisi, y broses neu'r gweithgaredd yn cynnwys gwneud penderfyniadau sy'n rhoi canlyniadau i unigolion (hawl i gael achos teg, hawl i gael eich trin yn deg)	Ydy, mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan un person, a all adolygu pob achos neu beidio	Ydy, mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan un person, sy'n adolygu pob achos	Ydy, mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan banel sy'n cael ei ddewis ar hap; a all adolygu pob achos neu beidio.	Ydy, mae'r penderfyniad yn cael ei wneud gan banel cynrychioliadol (a ddewiswyd yn benodol) NEU Na, nid oes angen unrhyw benderfyniadau	Dd/ B
	Mae meini prawf penderfynu cyfyngedig; gwneir penderfyniadau ar sail barn bersonol	Mae rhai meini prawf penderfynu penodol; gwneir penderfyniadau ar sail ystyriaeth 'fesul achos'	Mae meini prawf penderfynu clir, ond dim ffurflen i gofnodi'r penderfyniad	Mae meini prawf penderfynu clir a ffurflen i gofnodi'r penderfyniad	Dd/ B
	Nid oes proses adolygu mewnol na phroses apelio annibynnol	Mae ffordd o apelio'n annibynnol, ond nid oes proses adolygu mewnol	Mae proses adolygu mewnol, ond does dim ffordd i apelio'n annibynnol	Mae proses glir i apelio neu gyflwyno cwyn er mwyn i'r canlyniad gael ei adolygu'n fewnol ac yn annibynnol	Dd/ B
	Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi derbyn hyfforddiant ar EDI	Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i fod i	Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn	Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi derbyn hyfforddiant EDI	Dd/ B

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
	a rhagfarn ddiymwybod, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer hyn yn y 3 mis nesaf	dderbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiymwybod yn ystod y 3 mis nesaf, sydd wedi'i drefnu	cymryd rhan cyn derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiymwybod	a rhagfarn ddiymwybod o fewn y 12 mis diwethaf, a chofnodwyd hynny	
4. Hyfforddiant i bawb sy'n cymryd rhan	Mae llai na 50% o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi derbyn hyfforddiant EDI yn ystod y 12 mis diwethaf; ac nid oes unrhyw hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio	Mae dros 50% o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi derbyn hyfforddiant EDI, ac mae'r hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pawb arall sy'n cymryd rhan yn y 3 mis nesaf.		Mae dros 80% o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi derbyn hyfforddiant EDI yn ystod y 12 mis diwethaf, a chofnodwyd hynny	Dd/ B
5. Ffurfiau amgen – electronig / ysgrifenedig ar gael?	Dim fformatau amgen ar gael – dim ond un opsiwn	Oes, yn bennaf ar y rhyngrwyd/ar gyfrifiadur ond gellir defnyddio fersiynau papur		Mae fformatau amgen ar gael a gall defnyddwyr drafod a llenwi gyda'r tîm	Dd/ B
6. Lleoliad lle cynhelir y gweithgaredd	Ni ystyriwyd hygyrchedd adeiladau	Weithiau ystyrir hygyrchedd adeiladau		Ystyrir hygyrchedd adeiladau bob amser	Dd/ B
	Adeiladau anhygyrch;	Adeiladau sy'n rhannol hygyrch;	Adeiladau hygyrch, er nad yw pob safle wedi'i arolygu	Pob adeilad yn hygyrch a safleoedd wedi'u harolygu	Dd/ B
7. Presenoldeb	Byr rybudd o ran dyddiadau/lleoedd i fynychu	Rhybudd canolig (5-14 diwrnod) o ddyddiadau/lleoedd i fynychu		Wedi'i gynllunio ymhell ymlaen llaw	Dd/ B
	Newid mewn trefniadau yn digwydd aml iawn	Newid mewn trefniadau yn digwydd yn eithaf iawn		Newid mewn trefniadau yn digwydd yn anaml iawn	Dd/ B
	Dim ond yn bersonol y gellir mynychu	Yn bennaf mae'n ofynnol mynychu'n bersonol		Yn gallu mynychu o bell	Dd/ B
	Presenoldeb / cyfranogiad anghyfartal o ran mynychwyr	Presenoldeb/cyfranogiad anghyfartal o ran mynychwyr, ond mae hyn yn cael ei fonitro a'i reoli		Presenoldeb/cyfranogiad rhan yn gyfartal, ac yn	Dd/ B

C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant	Risg Uchel	Risg ganolig		Risg isel	? neu Dd/ B
				cael ei fonitro fesul mynychwr	
	Ni ystyrir gwyliau crefyddol; dim ond gwyliau Cristnogol a ystyrir	Ystyrir prif wyliau crefyddol y DU	Ystyrir prif wyliau crefyddol y DU, a cheisir cyngor gan unigolion yr effeithir arnynt os nad oes dyddiadau amgen	Ystyrir gwyliau crefyddol, a'r gallu i fod yn hyblyg (ar ddyddiadau, neu ddisgwyliadau hyblyg os nad oes dyddiadau amgen)	Dd/ B
8. Costau cysylltiedig	Nid yw treuliau posibl wedi'u cynnwys yn ein polisi treuliau	Gall rhai pobl, sy'n dangos tystiolaeth o'u hangen, hawlio am dreuliau posibl, penderfyniadau fesul achos		Gall y rhan fwyaf o ddefnyddwyr hawlio am dreuliau posibl, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein polisi treuliau; mae rhadbost ar gael	Dd/ B
9. Teg ar gyfer anghenion yr unigolyn	Cyswllt heb ei restru i drafod addasiadau rhesymol, gweithwyr ddim yn ymwybodol o gynghorwyr addasiadau rhesymol	Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu ag ymholiadau am addasiadau rhesymol.		Cyswllt wedi'i restru ar gyfer trafod addasiadau rhesymol	Dd/ B
10. Ymgynghori a Chynhwysiant	Dim ymgynghori; ymgynghori â gweithwyr mewnol yn unig	Ymgynghori â gweithwyr ac aelodau	Ymgynghori â gweithwyr, aelodau, a grwpiau ehangach	Ymgynghori â defnyddwyr polisi, gweithwyr, aelodau a grwpiau ehangach	

Rhowch sylwadau isod ar gyfer y sgoriau hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant uchod:
3-9: Nid yw'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig a'r safonau diwygiedig arfaethedig yn cynnwys gwneud penderfyniadau sy'n rhoi canlyniadau i unigolion, felly mae llawer o'r adran hon yn amherthnasol. Felly, bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar y cam hwn yn gyfyngedig. Bydd yr effaith bosibl yn y dyfodol yn dibynnu ar sut mae gofal yn cael ei weithredu'n ymarferol gan fusnesau.

Mae'r dull ymgynghori wedi'i gynllunio i gefnogi cyfranogiad cynhwysol trwy argaeledd dogfennau mewn fformatau amgen ar gais, mynediad agored trwy ein gwefan, a llwybrau ymateb niferus. Gwneir unrhyw benderfyniadau ar gynnwys y datganiad terfynol mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Cyngor a gynhelir ar-lein ac sy'n agored i bawb. Rydym yn cyhoeddi papurau'r Cyngor wythnos cyn cyfarfodydd.

Nid oes angen asesiad o effaith llawn.

Nodwedd warchodedig	**Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol?**	**Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith negyddol**
Oedran	Cadarnhaol	Bydd y cynigion hyn yn arwain at fesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith gan fusnesau optegol sy'n cynnal profion golwg sydd wedi'u gwahanu gan amser, person a/neu le. Mae'n cynnwys canllawiau ar gael protocolau a manylebau gwasanaeth wedi'u dogfennu ar gyfer sut y dylid gweithredu'r fformat, gan gynnwys sut i asesu a fyddai unrhyw gleifion yn anaddas ar gyfer fformat prawf golwg oherwydd eu risg glinigol. Mae hyn yn debygol o amddiffyn cleifion yn y grŵp oedran hŷn, gan fod ein hymchwil ni[1] yn dangos eu bod yn dod o dan y categori claf risg uwch ac felly a) yn llai tebygol o fod yn addas ar gyfer fformat prawf golwg o'r fath oherwydd eu hoedran a b) yn fwy tebygol o fod â chyflyrau llygaid sy'n bodoli eisoes.
Anabledd	Cadarnhaol	Mae ein hymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd yn dangos bod pobl ag anabledd yn fwy tebygol o brofi rhywbeth yn mynd o'i le yn ystod ymweliad â phractis optegydd/optometrydd. Mae cael protocolau wedi'u dogfennu a manylebau gwasanaeth ar gyfer sut y dylid gweithredu prawf golwg wedi'i wahanu yn ôl amser, person a/neu leoliad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y rhai ag anabledd, gan y bydd yn sicrhau bod y fformat yn addas i gleifion sy'n cael ei gynnig, yn ogystal â sicrhau bod y claf yn ymwybodol o'r fformat cyn yr apwyntiad fel y gallant arfer dewis a chaniatâd gwybodus (neu fel arall).
Rhyw	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.

[1] Jonuscheit, S. et al. (2025), 'Testing of sight - a risk-based framework: Project report'

Nodwedd warchodedig	Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol?	Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith negyddol
Ailbennu rhywedd (traws ac anneuaidd)	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Priodas a phartneriaeth sifil	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Beichiogrwydd / mamolaeth	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Hil	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Crefydd/Cred	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Cyfeiriadedd rhywiol	Niwtral	Nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol wedi'u nodi ar hyn o bryd, er y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fformatau profion golwg esblygu.
Grwpiau eraill (e.e. gofalwyr, pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol)	Cadarnhaol	Mae profi golwg wedi'i wahanu yn ôl amser, person a/neu le (e.e. profi golwg o bell gan ddefnyddio teleoptometreg) a darparu ar gyfer goruchwyliaeth o bell, yn debygol o fod yn gadarnhaol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell lle gall recriwtio optometryddion fod yn heriol. Gall hyn wella hygyrchedd gofal ac felly ganfod cyflyrau sy'n bygwth y golwg yn gynharach. Dylid nodi hefyd y gallai rhai unigolion brofi effeithiau sy'n gorgyffwrdd (er enghraifft, pobl hŷn ag anableddau neu'r rhai sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd), na fyddant o bosibl yn cael eu nodi'n llawn wrth ystyried nodweddion yn unigol.